Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Dewi Sant

**Rhodfa Bryndulais**
**Llanelli**
**Sir Gaerfyrddin**

**SA14 8RS**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Dewi Sant

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymraeg Dewi Sant |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Ysgol Cyfrwng Cymraeg Categori 3 |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 439 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 314 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 76 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 12.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 5.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 39.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/05/2017 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/06/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 19/11/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Gymraeg Dewi Sant yn gymuned hapus, ofalgar a theuluol. Mae gan y pennaeth dros dro ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun, y staff a’r disgyblion. Mae hyn yn annog disgyblion i ddatblygu agweddau hynod gadarnhaol tuag at eu dysgu. Mae hyn yn rhinwedd nodedig o’r ysgol.

Mae angerdd yr holl staff at ddatblygu agweddau cadarnhaol disgyblion at eu dysgu yn sicrhau amgylchedd gynhwysol yn yr ysgol. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer diwallu anghenion lles disgyblion yn gryfder. Golyga hyn fod y rhan fwyaf yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a medrus. Mae’r ysgol gyfan yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac mae disgyblion yn datblygu eu medrau yn gynyddol hyderus wrth gyfathrebu mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a’r rhai all gael eu heffeithio gan dlodi, yn gwneud cynnydd cadarn. Maent yn cymhwyso eu medrau llafar, rhifedd a digidol yn effeithiol mewn amrywiaeth gyfoethog o brofiadau ysgogol. Er hyn, nid yw athrawon bob tro’n cynllunio digon o gyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau llythrennedd ar draws y meysydd dysgu. Mae’r ddarpariaeth i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn hynod effeithiol.

Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o’r disgyblion ac maent yn darparu gweithgareddau dysgu sydd wedi eu cynllunio'n fedrus ar eu cyfer. Maent yn adeiladu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau’r disgyblion yn drefnus er mwyn sicrhau dilyniant yn nysgu’r disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae’r disgyblion yn teimlo bod oedolion yn yr ysgol yn gwrando’n dda ar eu syniadau ac yn eu hystyried mewn penderfyniadau sy’n effeithio arnynt, er enghraifft wrth gynllunio gweithgareddau yn ymwneud â’u themâu dysgu.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1 Ymestyn y cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd ar draws y meysydd dysgu

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae gan y pennaeth dros dro weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ethos gofalgar, cynhwysol a chefnogol, er mwyn darparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer pob disgybl. Mae'n gwireddu arwyddair yr ysgol, sef 'Ymdrech a lwydda', yn frwdfrydig, ac yn meithrin gwerthoedd sy'n ysgogi disgyblion i fod yn ddysgwyr hyderus ac iach sy'n ymfalchïo yn eu hysgol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun, y staff a'r disgyblion sy'n dylanwadu'n llwyddiannus ar agweddau hynod gadarnhaol y disgyblion at eu dysgu. Mae ymdeimlad cryf o deulu wedi ei sefydlu yn yr ysgol. Mae'r tîm gweithgar ac ymroddgar o athrawon a chymhorthyddion dysgu yn cydweithio'n hynod effeithiol er mwyn sicrhau darpariaeth gyfoethog mewn cyd-destun lleol a Chymreig.

Mae arweinwyr, gan gynnwys y llywodraethwyr, yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer adolygu cynnydd, nodi meysydd i'w gwella ac adnabod y camau i'w gweithredu i ddatblygu'r ysgol ymhellach. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Er enghraifft, maent wedi adnabod yr angen i ddatblygu arferion asesu ac adborth effeithiol i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o sut i wella eu gwaith ymhellach.

Mae'r iaith Gymraeg yn destun balchder i holl gymuned yr ysgol ac mae staff yn hyrwyddo'r ethos Cymreig, yn dathlu hanes a diwylliant Cymru, a gwerthoedd yr ysgol yn dda. Mae'r staff yn defnyddio dulliau o gyflwyno'r Gymraeg yn hynod effeithiol gan feithrin geirfa a phatrymau iaith disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae medrau llafar y rhan fwyaf o ddisgyblion, yn enwedig y disgyblion ieuengaf, yn datblygu'n effeithiol.

Mae'r disgyblion ieuengaf yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau llafar ac i ymarfer eu medrau ysgrifennu cynnar gan ddefnyddio'r ardaloedd dysgu ysgogol y tu fewn a thu allan i'r adeilad. Mae gan lawer o'r disgyblion hynaf fedrau ysgrifennu cadarn ac maent yn dangos perchnogaeth dros eu dysgu trwy ddewis sut i gyflwyno eu gwaith mewn ystod briodol o ffurfiau. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn cynllunio pamffled Parc Dŵr y Sandy fel paratoad ar gyfer ymweliad gyda'u rhieni. At ei gilydd, mae disgyblion yn cael cyfleoedd addas i gymhwyso eu medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth sgriptio podlediad am yr idiom 'dros ben llestri'. Fodd hyn, nid yw athrawon bob tro'n darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd yn ddigon cyson ar draws y meysydd dysgu.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn yn y ddwy iaith. Mae hyn yn eu cefnogi i ymchwilio i wybodaeth a chysyniadau mewn gweithgareddau ar draws y cwricwlwm. Mae medrau darllen cynnar y disgyblion ieuengaf yn datblygu'n effeithiol. Er enghraifft, wrth i ddisgyblion ddarllen rysáit er mwyn gwneud siocled poeth gan ddefnyddio adnoddau naturiol yn y gegin fwd yn yr ardal allanol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn rheolaidd. Er enghraifft, mae'r disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau mesur wrth astudio mapiau o'r ardal leol. Mae staff yn cryfhau medrau mathemategol disgyblion ymhellach drwy gysylltiadau agos â rhieni wrth rannu gwybodaeth fuddiol am y modd maent yn gallu cefnogi eu plant gartref. Mae'r

rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd disgwyliedig yn eu medrau rhifedd yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn rhan greiddiol o'i chymuned ac mae staff yn manteisio ar gysylltiadau lleol i ddatblygu medrau datrys problemau'r disgyblion yn fedrus. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn cymryd rhan weithredol yn y Prosiect Masnachwyr Iau yn Llanelli ac yn cymhwyso eu medrau i gynllunio, ymchwilio, casglu data a chyfrifo wrth ddatblygu eu medrau entrepreneuriaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau creadigol trwy ystod o weithgareddau cyfoethog. Er enghraifft, wrth lunio tocyn ar gyfer gêm rygbi ym Mharc y Scarlets. Mae hyn yn rhinwedd nodedig o'r ysgol.

Un o nodweddion amlycaf yr ysgol yw'r modd mae disgyblion yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol mewn amrywiaeth gyfoethog o brofiadau dysgu.

**Ciplun – datblygu medrau dysgu annibynnol disgyblion**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn gynhaliol a chynhwysol er mwyn cefnogi disgyblion i ymgysylltu ac ymgolli yn eu dysgu. Ar draws yr ysgol, mae staff yn cydweithio'n frwdfrydig i sicrhau bod yr ardaloedd dysgu yn cael eu cyflwyno gan ddefnyddio deunyddiau naturiol mewn lliwiau niwtral. Mae hyn yn meithrin ymddygiad da ymysg disgyblion sydd yn ei dro yn hyrwyddo eu hagweddau dysgu cadarnhaol.

Un o'r rhinweddau gwerthfawr yw'r ddarpariaeth gyfoethog sy'n cael ei chynllunio'n fwriadus ar gyfer y disgyblion ieuengaf. Mae egwyddorion y dysgu sylfaen yn greiddiol i ddulliau addysgu'r staff. Er enghraifft, mae staff y dosbarth meithrin yn defnyddio'r ardaloedd dysgu ysgogol ac amrywiol fel cyfrwng buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol.

Trwy hyn, mae'r disgyblion yn arbrofi'n chwilfrydig wrth chwarae a dysgu ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau, yn enwedig eu medrau siarad Cymraeg, a'u medrau personol a chymdeithasol. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth gyson hon yn sicrhau sail gadarn I ddisgyblion fwynhau eu dysgu ac i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Un o gryfderau amlwg yr ysgol yw bod gan staff adnabyddiaeth dda iawn o anghenion pob plentyn. Mae'r pwyslais a roddir ar drafodaethau ymysg staff a rhieni, ynghyd â chynnal asesiadau parhaus, yn cyfrannu'n llwyddiannus at sicrhau darlun clir a chyfredol o anghenion pob disgybl. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i ymateb yn amserol i'w hanghenion. Mae'r ddarpariaeth gynhwysol hon yn gryfder amlwg.

Mae bron bob disgybl yn datblygu dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion moesol, egwyddorol ac ysbrydol. Un o adnoddau gwerthfawr yr ysgol yw gardd 'Ysgol Dewi Sant' ble mae disgyblion, o dan arweiniad aelod o staff, yn plannu amrywiaeth o ffrwythau a llysiau er mwyn eu cynhaeafu a'u gwerthu yn yr ysgol fel rhan o'r trefniadau i gefnogi teuluoedd. Mae hyn yn datblygu amryfal fedrau'r disgyblion yn hynod fedrus, er enghraifft eu medrau llafar a rhifedd, ac yn fodd o ddwysáu eu dealltwriaeth o fod yn aelod gwerthfawr o'r ysgol a'i chymuned.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod penderfyniadau gwariant yn canolbwyntio’n synhwyrol ar flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwelliant. Yn ddiweddar, mae’r ysgol wedi buddsoddi mewn aelodau o staff i ddatblygu lles a medrau disgyblion. Yn ogystal, maent wedi creu gardd sensori bwrpasol sy’n darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymgysylltu â’u dysgu mewn modd creadigol ynghyd â manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i ymdawelu mewn amgylchedd synhwyraidd.

Mae'r ysgol yn meithrin cysylltiadau buddiol â diwydiannau lleol. Mewn cydweithrediad â chwmni teledu lleol, cynhyrchwyd clip digidol 'Y Ddogfen', sy’n adrodd  hanes yr ardal. Mae'r gweithgareddau hyn yn fodd i ddisgyblion ddod yn ymwybodol o gyfleoedd a phrofiadau bywyd oedolyn yn fedrus.

Mae arweinwyr yn cynnig ystod lwyddiannus o gyfleoedd i staff gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol. Yn dilyn hyfforddiant, maent yn rhannu’r arferion gorau yn effeithiol er mwyn dylanwadu’n gadarnhaol ar brofiadau disgyblion. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae staff ar draws yr ysgol wedi addasu eu hamgylchedd dysgu yn fwriadus ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar les a dysgu’r disgyblion.

Mae’r staff yn cynllunio cwricwlwm cytbwys, cyfoethog ac ysgogol sy’n adlewyrchu ei natur a’i chyd-destun lleol yn llwyddiannus. Mae’r iaith Gymraeg a’i hanes yn destun balchder yn yr ysgol. Mae’r disgyblion yn cael eu trochi yn y Gymraeg yn llwyddiannus, fel wrth ganu amrywiaeth o ganeuon, rhigymau a hwiangerddi yn hynod effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion yn canu canueon sy’n tarddu o’u hardal leol fel ‘Sosban Fach’, a chân yr ysgol ‘Ein Gwerthoedd Ni’, gydag arddeliad.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/01/2025